Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (CLAWDD PONCEN I LANBEDR DYFFRYN CLWYD, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD CERBYDAU A THERFYN CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494, neu gerllaw iddi, rhwng Clawdd Poncen a Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 21 Mawrth 2016 ac yn weithredol yn ystod y dydd (09:00 – 15:00 o'r gloch) hyd 24 Mawrth 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A494 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw, pan fo'n bosibl, yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a dim ond am gyfnodau byr y bydd hyn yn para. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 30 mya ar y darnau o'r A494 a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o'r A494 sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r A5104 wrth Glawdd Poncen hyd at bwynt 200 metr i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Y darn o'r A494 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr annedd o'r enw Hendre Bryn Cyffo, i'r de o Wyddelwern, hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr anheddau o'r enw Siambr-wen a Bryn Gwenallt, i'r gogledd o Wyddelwern.

Y darn o'r A494 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Efenechtyd, i'r de-orllewin o Bwll-glas, hyd at ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd (cyffordd Pont Eyarth).

Y darn o'r A494 wrth Lanbedr Dyffryn Clwyd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Lôn Cae Glas hyd at ei chyffordd â'r trac diddosbarth sy'n arwain at yr annedd o'r enw Cae Mawr, i'r de-ddwyrain o Lanbedr Dyffryn Clwyd.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (CLAWDD PONCEN TO LLANBEDR DYFFRYN CLWYD, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES & 30 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road between Clawdd Poncen and Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire.

The prohibition and restriction, which will be signed accordingly, are expected to come into force on 21 March 2016 and operate during the day (09:00 – 15:00 hours) until 24 March 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the lengths of the A494 described in the Schedule to this Notice. Any such closures will, wherever possible, be indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

ii. Impose a 30 mph speed limit on the lengths of the A494 described in the Schedule.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles & 30 mph Speed Limit

The length of the A494 that extends from a point 200 metres south of the centre-point of its junction with the A5104 at Clawdd Poncen to a point 200 metres north of the said junction.

The length of the A494 that extends from its junction with the unclassified road leading to the dwelling known as Hendre Bryn Cyffo, south of Gwyddelwern to its junction with the unclassified road leading to the dwellings known as Siambr-wen and Bryn Gwenallt, north of Gwyddelwern.

The length of the A494 that extends from its junction with the unclassified road leading to Efenechtyd, south-west of Pwll-glas to its junction with the unclassified road leading to Llanfair Dyffryn Clwyd (Pont Eyarth junction).

The length of the A494 at Llanbedr Dyffryn Clwyd that extends from its junction with the unclassified road known as Lon Cae Glas to its junction with the unclassified track leading to the dwelling known as Cae-mawr Farm, south-east of Llanbedr Dyffryn Clwyd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE